Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Yr Adran Cymunedau

# Gwasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl
# Canllawiau Asesu Ariannol a Thaliadau 2025-26

## Ffeithlen 1

**(Ebrill 2025)**

## Cyflwyniad

Ar 6 Ebrill 2016, cyflwynwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod rhan o'r Ddeddf yw cael mwy o gysondeb o ran codi tâl a lleihau'r amrywiadau eang mewn trefniadau codi tâl a'r symiau sy'n cael eu codi gan wahanol Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae disgresiwn gan Awdurdodau Lleol i benderfynu a fyddant yn codi tâl am wasanaethau neu beidio, ac i benderfynu pa wasanaethau y codir tâl amdanynt a faint o dâl a godir am bob gwasanaeth.

## Pa wasanaethau dibreswyl mae'r Cyngor yn codi tâl amdanynt?

Mae'r Cyngor o bryd i'w gilydd yn adolygu'r gwasanaethau y mae'n codi tâl amdanynt ac mae'n adolygu'r tâl a godir am bob gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor un tâl am wasanaethau sy'n ymwneud â chostau byw o ddydd i ddydd. Mae'r tâl hwn yn cael ei dalu ar yr un gyfradd gan bawb sy'n derbyn y gwasanaeth. Bydd pawb yn talu'r taliadau hyn beth bynnag fydd canlyniad eu hasesiad ariannol. Y canlynol yw'r gwasanaethau sy'n codi un tâl:

- Prydau bwyd mewn canolfannau gofal dydd
- Gwasanaethau golchi dillad
- Llinell Gofal

Mae gan y Cyngor hefyd ffioedd cyfradd unffurf ar gyfer gwasanaethau eraill y mae'n eu cynnig i rai defnyddwyr gwasanaeth:

- Penodiadau i ddelio â budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith
- Ceisiadau dirprwy gyda'r Swyddfa Gwarcheidwaid Cyhoeddus

Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol yn codi tâl am y gwasanaethau canlynol, ond mae'r swm a delir am y rhain yn cael ei bennu o ganlyniad i asesiad ariannol (prawf modd):

- Gofal Cartref
- Taliadau Uniongyrchol (yn lle gwasanaeth cyfatebol y codir tâl amdano)
- Teleofal
- Gofal Ychwanegol
- Gofal Seibiant/Tymor Byr a ddarperir mewn Cartref Gofal (am hyd at 8 wythnos, yn seiliedig ar angen a aseswyd)
- Gofal Dydd
- Byw â chymorth
- Lleoli Oedolion - Lleoliad Tymor Hir
- Lleoli Oedolion - Lleoliad Tymor Byr/Seibiannau Byr
- Lleoli Oedolion - Gofal Dydd/Gofal Sesiynol
- Gofal Amgen
- Cymorth Cymunedol

Nid yw'r rhain yn wasanaethau un tâl, ond os byddwch yn derbyn y gwasanaethau hyn bydd cyfle ichi gael asesiad ariannol (prawf modd) a bydd y swm y byddwch yn ei dalu am y gwasanaethau hyn yn dibynnu ar nifer y gwasanaethau a gewch yn ôl asesiad, faint o wasanaethau a gewch, faint o incwm sydd gennych a faint o gyfalaf. Pennir yr union dâl yn ôl canlyniad yr asesiad ariannol ond ym mhob achos y swm mwyaf y gofynnir ichi ei dalu yw'r swm a nodir ar dudalen 14 o'r Ffeithlen hon. Bydd rhai yn talu llawer llai a bydd rhai yn derbyn y gwasanaethau am ddim.

**Mae'r tâl am bob gwasanaeth i'w weld ar dudalen 13 a 14 o'r Ffeithlen hon. Mae'r costau'n cynyddu bob Ebrill, a gall hyn effeithio ar yr amount y byddwch yn cyfrannu tuag at eich gofal a chefnogaeth.**

## Taliadau Uniongyrchol

Codir tâl ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth sy'n derbyn Taliad Uniongyrchol yn lle gwasanaeth yn yr un ffordd â phetawn nhw'n derbyn y gwasanaeth cyfatebol.

## Llinell Bywyd Delta/Cyswllt Delta

Mae 'un tâl' ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu naill ai â Delta Llesiant drwy ffonio 0300 333 2222 (e-bost ymholiadaudelta@sirgar.gov.uk).

## Faint y byddaf yn gorfod ei dalu am y gwasanaethau rwy'n eu cael yn ôl fy asesiad?

Nid oes un ateb syml. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o wasanaethau a'r math o wasanaethau rydych chi'n eu cael yn ôl eich asesiad. Bydd yn dibynnu hefyd ar eich cyfalaf, incwm a lwfansau/diystyriadau. Bydd yr union swm y byddwch yn ei dalu yn cael ei bennu yn yr asesiad ariannol (prawf modd). Ni fydd neb yn talu mwy na'r tâl a godir am y gwasanaethau y byddant yn eu derbyn yn ôl yr asesiad ac ni fydd y tâl yn fwy na'r uchafswm tâl wythnosol sydd i'w weld ar dudalen 14 o'r Ffeithlen hon.

Mae'r tâl am wasanaethau sy'n ymwneud â chostau byw o ddydd i ddydd ac sy'n wasanaethau un tâl e.e. pryd mewn Canolfan Dydd/ Penodiadau, yn ychwanegol at y taliadau sy'n ganlyniad i'r asesiad ariannol (prawf modd).

Nid yw gwerth eich prif gartref (y cartref rydych yn byw ynddo) yn cael ei gyfrif fel rhan o'ch cyfalaf, ond mae unrhyw ail-gartref, tir, neu siâr o dir, rydych yn berchen yn cael ei gyfrif fel ased. Mae'n werth nodi na fydd neb yn talu cost lawn y gwasanaethau a gânt, gan fod y tâl a godir ar ddefnyddwyr gwasanaethau fel arfer yn llai na'r hyn mae'n ei gostio i'r Awdurdod Lleol ddarparu'r gwasanaeth.

**Codir tâl arnoch** (*os* asesir bod angen ichi dalu) **o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth(au),** ond ni chaiff yr anfoneb gyntaf ar gyfer taliadau gofal ei chyflwyno hyd nes y cewch ddatganiad sy'n manylu ar sut y cyfrifwyd y tâl.

Mae'n werth nodi na fydd newid yn y gwasanaeth(au) rydych chi'n eu derbyn (naill ai cynnydd neu ostyngiad mewn gofal a chymorth) o reidrwydd yn effeithio ar y swm y byddwch chi'n cael ei asesu i'w gyfrannu tuag at eich pecyn gofal, ond mae'n bosibl y gall wneud hynny.

## Sut mae'r tâl yn cael ei weithio allan?

Bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaeth un tâl i gyd yn talu'r un faint am y gwasanaethau hynny.

Bydd gwahoddiad i gleientiaid sy'n derbyn gwasanaeth sydd heb fod yn wasanaeth un tâl gael asesiad ariannol personol i benderfynu faint o dâl a godir arnynt am y gwasanaethau hyn yn unig.  Mae'r rheolau'n nodi y bydd y rhai sydd ag incwm a/neu gyfalaf sy'n llai na'r isafswm a bennwyd yn talu dim am y gwasanaethau hyn.

## Beth os nad wyf am ddatgelu fy asedau?

Gallwch ddewis peidio â datgelu eich asedau. Yn yr achosion hynny gofynnir ichi dalu costau llawn yr holl wasanaethau a gewch, hyd at yr uchafswm tâl wythnosol a nodir ar dudalen 14 o'r Ffeithlen hon.  Bydd gwasanaethau sy'n ymwneud â chostau byw o ddydd i ddydd, neu sydd a 'un-tâl' e.e. pryd mewn Canolfan Dydd, Penodiadau yn gostau ychwanegol ar ben yr uchafswm tâl wythnosol.

## Cyfalaf

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi trothwy cyfalaf bob mis Ebrill ac mae'r ffigur presennol i'w weld ar dudalen 14 o'r Ffeithlen hon.

Os yw cyfanswm eich asedau, gan gynnwys eich cynilion, cyfrifon cyfredol, buddsoddiadau ac eiddo, os ydynt yn berthnasol, yn fwy na'r ffigur hwn gofynnir ichi dalu'r costau llawn am y gwasanaethau a asesir, hyd at yr uchafswm tâl wythnosol a nodir ar dudalen 14.  Ni fydd eich prif breswylfa'n cael ei chynnwys wrth inni gyfrifo'r cyfalaf sydd gennych ond bydd unrhyw eiddo arall ac unrhyw tir yn cael ei gynnwys.  Mae'n bosibl y bydd rhai mathau o gyfalaf yn cael eu diystyru wrth benderfynu faint o gyfalaf sydd gennych. I gael rhagor o wybodaeth am hyn cysylltwch â'r Tîm Asesiadau Ariannol (gweler y manylion cyswllt ar dudalen 10)

Os yw eich cyfalaf yn llai na'r trothwy yna bydd hwn yn cael ei anwybyddu yn ystod yr asesiad ariannol a bydd unrhyw dâl a godir arnoch yn dibynnu ar eich incwm a'ch treuliau/lwfansau yn unig.

## Incwm

Yn y mwyafrif o achosion bydd eich holl incwm o ba ffynhonnell bynnag yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. Mewn rhai amgylchiadau fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai elfennau o'r incwm yn cael eu diystyru neu bydd lwfansau'n cael eu hystyried, a bydd hynny'n gostwng yr incwm fydd yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol.

## Lwfansau neu Ddiystyriadau

Mewn asesiad ariannol personol mae wastad swm o arian na ellir ei ddefnyddio i dalu tâl – Swm Isafswm Incwm.  Mae'r ffigur hwn yn wahanol ar gyfer gwahanol bobl oherwydd bod eu hincwm yn cynnwys gwahanol fudd-daliadau a ffynonellau

incwm. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r ffigur ac mae'n cynnwys swm sy'n ymwneud â gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd gan y defnyddiwr gwasanaeth.

**Mae'r incwm a ddiystyrir i'w weld ar dudalen 15 o'r Ffeithlen hon**

Mae'r rhestr isod yn dangos y prif lwfansau neu ddiystyriadau fydd yn cael eu hystyried. Mae hyn ar ben y Swm Isafswm Incwm a ddiystyrir ac a nodir ar dudalen 14 o'r Ffeithlen hon:

- Unrhyw enillion cyflogaeth
- Lwfans Gofalwr
- Budd-dal Plant
- Taliadau Bonws y Nadolig
- Y Dreth Gyngor
- Credyd Treth i Berson Anabl
- Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol
- Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (o'i gymharu â'r elfen ofal) ac atodiad symudedd y Pensiwn Rhyfel
- Treuliau a delir yn y gwaith
- Taliadau i Gyn-garcharorion Rhyfel y Dwyrain Pell a thaliadau Niwed trwy Frechiad
- Rhent/Morgais
- Y £10 cyntaf o bensiynau rhyfel gwraig weddw/gŵr gweddw, Taliadau Incwm Gwarantedig goroeswyr o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, pensiwn Anaf Rhyfel i Sifiliaid a thaliadau i ddioddefwyr erledigaeth Sosialaidd Genedlaethol.
- Gwerth eich cartref (sylwer: nid unrhyw eiddo ychwanegol, neu tir rydych yn perchen arno)
- Pensiwn atodol Gweddwon Rhyfel
- Taliadau Tanwydd Gaeaf
- Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio
- Pensiwn Anabledd Rhyfel
- Hyd at £5.75 gyntaf Credyd Cynilion
- 50% o bensiwn preifat/galwedigaethol lle rydych yn rhoi o leiaf 50% o'r pensiwn i'ch priod/partner i dalu eu costau byw

## Budd-daliadau Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu diystyru Gwariant sy'n gysylltiedig ag Anabledd yn yr asesiad ariannol. Yn ychwanegol at hyn bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn diystyru elfen o'r budd-daliadau anabledd fel incwm. Ar hyn o bryd mae hyn wedi cael ei osod ar 25% o elfen gofal dydd budd-daliadau o'r fath a'r cyfan o elfen gofal nos budd-daliadau o'r fath. N.B. Bydd yr elfen nos o fudd-

daliadau o'r fath yn cael ei chynnwys yn yr asesiad ariannol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn Llety â Chymorth neu mewn trefniadau Cysylltu Bywydau.

## Costau Anabledd

Yn ychwanegol at y diystyriadau uchod, bydd y Cyngor yn caniatáu costau gofal personol yn ystod y dydd gan ddarparwyr gofal cofrestredig, Penodiadau a chost systemau larwm personol (e.e. Llinell Bywyd Delta/Cyswllt Delta) fel diystyriad. Byddwn yn gofyn ichi roi'r derbynebau am y gwasanaethau hyn inni. Yn ychwanegol at hyn, os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn prynu gofal nos gan ddarparwr gofal cofrestredig ac y bydd cost y gofal hwn yn uwch nag elfen gofal nos y budd-dal a dderbynnir, yna bydd y gost ychwanegol yn cael ei ganiatáu fel diystyriad.

Gall costau anabledd ychwanegol gael eu hystyried fel treuliau, lle mae'r costau hyn wedi'u tystiolu.

## A allaf drosglwyddo unrhyw rai o fy asedau i rywun arall?

Os ydych yn trosglwyddo cynilion, arian neu asedau eraill , gan gynnwys eiddo, neu wedi gwerthu eiddo am lai na'i werth ar y farchnad, neu'n roi eiddo mewn ymddiriedaeth / ei drosglwyddo i rywun arall neu'n dorri tenantiaeth ar y cyd cyn derbyn gofal, neu tra byddwch yn derbyn gofal, efallai y byddwn yn eich asesu fel petaech yn dal i fod â gwerth llawn yr ased.  Efallai y bydd person sy'n manteisio yn dod yn atebol am unrhyw daliadau sydd heb eu talu.

Byddwn yn gofyn i chi am amser, rheswm, derbynnydd, a gwerth ariannol y trosglwyddiad ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i seilio ein penderfyniad ar a yw amddifadedd asedau wedi digwydd; byddwn yn gwneud penderfyniad ynghylch a yw'r ased wedi'i gynnwys neu ei ddiystyru o'r asesiad ariannol.

Byddwn yn edrych ar gofnodion Gofal Cymdeithasol ac efallai y byddwn yn gofyn am Gofnodion Meddygol i benderfynu a allai Gofal a Chymorth fod wedi cael ei ragweld yn rhesymol ar yr adeg y rhoddwyd yr asedau ac yn cynorthwyo yn ein penderfyniad ynghylch amddifadu asedau.

Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu pobl agored i niwed ac felly gall rhai achosion arwain at atgyfeiriad i'r Tîm Diogelu i'w ymchwilio.

## A oes angen i mi ddweud wrthych am unrhyw newid?

Dylech roi gwybod inni os bydd eich incwm/budd-daliadau'n cynyddu neu'n gostwng, os byddwch yn cael unrhyw incwm/budd-daliadau newydd, os byddwch ar eich ennill yn ariannol yn sgil etifeddu neu unrhyw drosglwyddiad arall, neu os yw eich cynilion/cyfalaf wedi codi'n uwch neu'n is na'r trothwy cyfalaf uchaf (gweler y trothwy cyfalaf presennol ar dudalen 14) neu os bydd treuliau newydd neu ychwanegol gennych yn sgil newid yn eich anghenion gofal gan y gallai hyn effeithio ar y swm rydych chi'n ei dalu tuag at eich gofal a'ch cefnogaeth.

## Sut byddaf yn talu?

Os asesir bod angen ichi dalu rhywfaint at eich gofal byddwn yn rhoi gwybod ichi sut y gallwch dalu pan fyddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau canlyniad eich asesiad ariannol.

## Prydau Bwyd

Mae gan y prydau a ddarperir gan y Cyngor un tâl.  Bydd pawb yn talu'r taliadau hyn beth bynnag fydd canlyniad eu hasesiad ariannol.

**Mae'r tâl presennol i'w weld ar dudalen 13 o'r Ffeithlen hon**

## Gwasanaethau golchi dillad

Mae'r gwasanaethau golchi dillad gan y Cyngor yn wasanaethau un tâl a bydd pawb yn talu'r taliadau hyn beth bynnag fydd canlyniad eu hasesiad ariannol.

**Mae'r tâl presennol i'w weld ar dudalen 13 o'r Ffeithlen hon**

## Penodiad gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith (AGaPh/CBG)

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cyngor wneud cais i fod yn benodiad i chi gyda'r AGaPh/CBG i ddelio â'ch pensiynau/budd-daliadau'r wladwriaeth. Mae cyfradd unffurf ar gyfer y gwasanaeth hwn, a bydd pawb yn talu'r tâl hwn waeth beth yw canlyniad eu hasesiad ariannol ar gyfer gwasanaethau Gofal Cymdeithasol eraill.

**Mae'r tâl presennol i'w weld ar dudalen 13 o'r Ffeithlen hon**

## Dirprwy gyda Swyddfa'r Gwarcheidwaid Cyhoeddus (SGC)

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cyngor wneud cais i fod yn Ddirprwy i chi gyda'r SGC i ddelio â phob agwedd o'ch materion cyllid. Mae tâl untro ar gyfer y gwasanaeth hwn, a bydd pawb yn talu'r tâl hwn waeth beth yw canlyniad eu hasesiad ariannol ar gyfer gwasanaethau Gofal Cymdeithasol eraill.

**Mae'r tâl presennol i'w weld ar dudalen 13 o'r Ffeithlen hon**

## Trafnidiaeth

Os asesir bod angen eich cludo i ganolfan gofal ddydd ac yn ôl i'ch cartref, ni fydd tâl am y gwasanaeth hwn.

## Ailalluogi

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth Ailalluogi ac ar hyn o bryd darperir y gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim ***fel arfer am hyd at*** **6 wythnos** ac ni chaiff ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. Os nodir anghenion gofal hirdymor ar unrhyw adeg (gallai hyn fod ar unrhyw adeg ar ôl i'r gwasanaeth Ailalluogi ddechrau) yna gall tâl fod yn berthnasol a chynhigir asesiad ariannol i'r defnyddiwr gwasanaeth i benderfynu ar y tâl am y gwasanaethau hirdymor yr asesir eu bod yn eu derbyn. Bydd y tâl yn berthnasol o'r dydd Llun ar ôl i anghenion gofal hirdymor gael eu nodi.

Unwaith y darperir gwasanaeth i ddiwallu anghenion cymorth hirdymor, bydd y gwasanaeth Ailalluogi yn dod i ben. Fodd bynnag, gall y staff Ailalluogi ddiwallu'r anghenion gofal hirdymor tra byddwn yn chwilio am ddarparwr gwahanol ar gyfer eich gofal hirdymor, ac yn dibynnu ar eich asesiad ariannol, bydd tâl yn cael ei godi am y gofal hwn.

## Dau Gynorthwyydd Gofal Cartref

Bydd rhai pobl ag anghenion arbennig yn cael dau Gynorthwyydd Gofal Cartref ar yr un pryd i ofalu amdanynt. Bydd unrhyw dâl yn dibynnu ar nifer yr oriau sydd eu hangen, nid ar nifer y Cynorthwywyr Gofal.

## Trefniadau ar gyfer Asesiadau Ariannol

Cynigir asesiad ariannol i bawb sy'n cael Gwasanaeth Cymdeithasol Dibreswyl (ac eithrio'r rheiny sydd ond yn derbyn gwasanaethau sy'n ymwneud â chostau byw o ddydd i ddydd/gwasanaethau sydd â thâl 'un-tâl' - gweler tudalen 1 o'r Ffeithlen hon) er mwyn cyfrifo'r tâl (os oes tâl) am y gwasanaeth(au) a ddarperir. Mae gennych hawl i wrthod, ac os byddwch yn gwneud hynny, yna gofynnir ichi dalu cost briodol y gwasanaeth a asesir ar eich cyfer, hyd at yr uchafswm tâl wythnosol ar y pryd.

Os byddwch yn cytuno i gael asesiad ariannol yna gall hyn ddigwydd yn eich cartref chi er mwyn sicrhau preifatrwydd neu gellir trefnu cyfweliad preifat mewn man cyfleus yn un o swyddfeydd y cyngor. Os dymunwch gall perthynas neu ffrind fod yn bresennol neu eich cynrychioli chi. Os nad ydych yn trin eich materion ariannol eich hunan, yna gall y person sy'n gwneud hynny drosoch lenwi'r ffurflen ar eich rhan.

Mae'n bwysig nad ydych yn talu mwy nag y dylech, na thalu dim os oes hawl gennych i gael gwasanaeth am ddim. Trwy edrych ar eich sefyllfa ariannol gallwn sicrhau bod eich tâl yn gywir a'ch bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. Byddwn yn eich helpu chi i lenwi unrhyw ffurflen/ffurflenni fydd ei/eu hangen er mwyn hawlio budd-dal o'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith.

Byddwn yn gofyn am weld dogfennau ariannol i ategu eich cais a bydd rhaid inni wneud copïau i'w chadw o'r dogfennau ariannol a ddefnyddiwn er mwyn inni gael cofnod cywir o'ch sefyllfa ariannol pan fyddwch yn cael asesiad ariannol. Mae gennym weithdrefnau i ddiogelu eich preifatrwydd.

Os byddwch yn fwriadol yn gwneud datganiad anwir ar y ffurflen asesu er mwyn lleihau'r taliadau y bydd yn rhaid ichi dalu neu er mwyn osgoi gorfod talu, neu os na ddatgelwch eich holl amgylchiadau ariannol, gellir codi'r tâl llawn arnoch am y gwasanaeth a ddarperir, hyd at y tâl uchaf sy'n berthnasol ar y pryd (ewch i dudalennau 13 a 14 o'r Ffeithlen).

Ni chodir tâl am wasanaethau ôl-ofal a fydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Ni fydd defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl sy'n dioddef gan unrhyw ffurf ar CJD ac sydd wedi cael diagnosis gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig gael asesiad ariannol, a byddant yn cael eu heithrio'n awtomatig ac yn derbyn gwasanaeth am ddim.

## Asesiadau Ariannol ar y Cyd

Bydd yr asesiad ariannol yn cael ei gynnal ar y person sydd i dderbyn y gwasanaeth neu'r gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl. Dim ond yr incwm a'r cyfalaf y mae gan y person hwnnw hawl iddynt fydd yn cael eu hystyried. Os yw'r cyfalaf/buddsoddiadau ac ati ganddynt ar y cyd â rhywun arall yna cânt eu dosrannu'n gyfartal neu ar sail hawl os yw'r cofnodion a ddarperir yn dangos rhywbeth gwahanol. Os oes budd-daliadau'n cael eu talu ar sail 'pâr' yna bydd y swm a delir i'r person sy'n derbyn gwasanaeth yn cael ei ystyried yn y broses asesu ariannol.

Os oes rhywun arall yn byw gyda chi yn yr un cyfeiriad bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau na fydd incwm yr aelwyd yn is na'r lefel a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddai asesiad ariannol yn cael ei gynnig i'r person(au) arall/eraill sy'n byw yn y tŷ a gallai'r canlyniad olygu y byddai'r un sy'n derbyn y gwasanaeth yn talu llai.

## Os ydych yn credu bod eich Asesiad Ariannol yn anghywir

Os ydych yn credu bod eich tâl wedi cael ei asesu'n anghywir yna cysylltwch â'r Tîm Asesiadau Ariannol. Bydd Swyddog yn bwrw golwg dros eich asesiad i sicrhau bod yr holl ffigurau'n gywir ac nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol ar goll.  Os ydych yn dal yn anhapus â'r canlyniad, gallwch ofyn i reolwr wirio'r asesiad.  Os ydych yn dal yn anhapus ar ôl hyn, gallwch wneud cais am adolygiad ffurfiol ynghylch y penderfyniad a gall staff y Tîm Asesu Ariannol Di-breswyl esbonio'r camau y dylech eu dilyn nesaf.

Hefyd gallwch ofyn i rywun y tu allan i'r Cyngor fwrw golwg dros y cyfrifiadau (e.e y Ganolfan Cyngor ar Bopeth).

## Manylion Cyswllt

Os dymunwch gysylltu â'r Cyngor ynghylch eich taliadau yna gallwch ysgrifennu at y canlynol neu eu ffonio:

Tîm Asesiadau Ariannol Di-Breswyl,
Adran Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin,
3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

**Rhif Ffôn: 01267 228683**

**E-bost: asesiadauariannol-gofaldibreswyl@sirgar.gov.uk**

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu?

Os na fyddwch yn talu’ch taliad, byddwn yn cysylltu â chi i ganfod a oes problem. Os oes problem, byddwn yn ceisio eich helpu i ddatrys y broblem. Os nad oes problem a’ch bod yn dal i beidio â thalu eich biliau, bydd yn rhaid inni gymryd camau priodol i gasglu unrhyw ddyledion.

## Beth os ydw i'n anfodlon ar y gwasanaeth neu eisiau cyflwyno cwyn?

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol iawn o ran y prosesau sy'n gysylltiedig ag asesu gofal, derbyn gofal a gwasanaethau cymorth a'r asesiad ariannol, mae'n gallu bod yn gymhleth weithiau.

Os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaethau neu'r ffordd rydych chi wedi cael eich trin mae gennych yr hawl i gwyno a dylech gysylltu â'r Tîm Datrys a Chwynion. Ni fyddwch yn colli unrhyw wasanaeth o ganlyniad i’ch cwyn.

Mae modd cysylltu â’r Tîm Datrys a Chwynion fel a ganlyn:

- Drwy ffonio 01267 224488
- Drwy anfon e-bost i cwynion@sirgar.gov.uk
- Drwy lenwi ein ffurflen gwynion a chanmoliaeth sydd ar gael ar-lein: www.sirgar.gov.uk/cwynionachanmoliaeth

## Â phwy y dylwn gysylltu i drafod fy anghenion?

Dylech gysylltu â'n **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth – Llesiant Delta ar: 0300 333 2222**, neu â'ch Gweithiwr Cymdeithasol, os pennwyd gweithiwr cymdeithasol i chi.

## Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Os hoffech wybod sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, edrychwch ar ein hysbysiadau preifatrwydd fan hyn:
**www.sirgar.llyw.cymru/hysbysiadau-preifatrwydd**

Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r hysbysiadau preifatrwydd ar-lein a'ch bod yn dymuno derbyn copi, ffoniwch 01267 228703.

**Cyfeiriadau cyswllt defnyddiol eraill:**

| | |
|---|---|
| Age Cymru Sir Gâr | 01554 784080 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 0300 7900 126 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr | 0300 0200 002 |
| Cyngor ar Bopeth | 03444 77 20 20 |
| Independant Age | 0800 3196 789 |
| Adran Gwaith a Phensiynau | 0800 882 200 |
| Canolfan Byd Gwaith | 0800 055 6688 |

**Sylwch y bydd unrhyw daliadau sydd wedi'u cynnwys yn y llyfryn hwn yn gallu newid. Mae newidiadau fel arfer yn weithredol o fis Ebrill bob blwyddyn.**

**Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael yn Gymraeg.**

**Os hoffech gael y daflen ffeithiau hon mewn unrhyw fformat arall, ffoniwch 01267 228703 neu ddanfon e-bost i gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**

## Taliadau am Wasanaethau Cymdeithasol Di-Breswyl (o 7/4/25)

| Gwasanaeth | Tâl a Godir | Asesiad Ariannol |
|---|---|---|
| Prydau bwyd/byrbrydau mewn canolfannau gofal dydd | £9.75 y dydd** | Gwasanaeth un tâl |
| Prydau cymunedol | £7.00 y pryd | Gwasanaeth un tâl |
| Delta wedi'i brydlesu (Llinell Gofal) – monitro ac yn cynnwys larwm gwddf | £72.61 y chwarter | Gwasanaeth un tâl |
| Delta wedi'i brydlesu (Llinell Gofal) – monitro ac yn cynnwys 2 larwm gwddf | £89.04 y chwarter | Gwasanaeth un tâl |
| Delta wedi'i brydlesu (Llinell Gofal) – monitor yn unig | £22.03 y chwarter | Gwasanaeth un tâl |
| Cyswllt Delta – un person yn yr aelwyd yn defnyddio'r gwasanaeth | £98.03 y chwarter | Gwasanaeth un tâl |
| Cyswllt Delta – dau person yn yr aelwyd yn defnyddio'r gwasanaeth | £150.69 y chwarter | Gwasanaeth un tâl |
| Golchi dillad | £4.20 y llwyth | Gwasanaeth un tâl |
| Penodiadau | £5.00 yr wythnos | Gwasanaeth un tâl |
| Ceisiadau Dirprwy | £944.00 tâl untro | Gwasanaeth un tâl |
| Gofal Cartref | £23.95 yr awr | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Taliadau Uniongyrchol (yn lle gwasanaeth y codir tâl amdano) | £16.00 yr awr/£110.80 y noswaith | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Gofal Seibiant/Tymor Byr (mewn Cartref Gofal) | Tâl Safonol/ Tâl Gyfradd lleoliad yn y Sector Annibynnol* | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Teleofal | £5.95 yr wythnos | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Gofal Ychwanegol | £23.95 yr awr | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Gofal Dydd | £23.95 y sesiwn ** | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Byw â chymorth | £23.95 yr awr | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Cysylltu Bywydau - Lleoliad Tymor Hir | £23.95 y noson | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Cysylltu Bywydau - Lleoliad Tymor Byr/ Seibiannau Byr | £23.95 y noson | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |

| | | |
|---|---|---|
| Gofal Amgen | £23.95 yr awr | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |
| Cymorth Cymunedol | £23.95 yr awr | Wedi'i gynnwys yn yr asesiad ariannol |

* Nodwch fod yr wythnos codi tâl yn rhedeg o Ddydd Llun i Ddydd Sul, felly byddai un noson o Ofal Seibiant/Gofal Tymor Byr mewn cartref gofal yn ystod wythnos lle codir tâl yn cael ei godi ar sail y tâl a aseswyd ar eich cyfer. Dangosir y tâl hwnnw ar y Datganiad o’r Asesiad Ariannol (a roddir ichi) ac mae'n bosibl mai'r tâl uchaf presennol fydd hwn – hynny yw, gallech dalu £100 am un noson mewn cartref gofal.

**Diffinnir un sesiwn gofal dydd fel a ganlyn:

- Gwasanaeth a dderbynnir cyn 1pm ar unrhyw ddiwrnod, am unrhyw gyfnod o amser
- Gwasanaeth a dderbynnir rhwng 1pm a 6pm ar unrhyw ddiwrnod, am unrhyw gyfnod o amser
- Gwasanaeth a dderbynnir ar ôl 6pm ar unrhyw ddiwrnod, am unrhyw gyfnod o amser

Telir y tâl am brydau/byrbrydau mewn Canolfan Ddydd gan bawb sy'n mynychu ac mae'n ychwanegol at y tâl am bresenoldeb yn y Ganolfan Ddydd (rhoddir 2 anfoneb ar wahân)

**Yr Uchafswm Tâl Wythnosol am Wasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl ar gyfer 2025/26 (a bennwyd gan Lywodraeth Cymru):**
£100.00 yr wythnos

**Y Trothwy Cyfalaf Uchaf ar gyfer 2025/26 (a bennwyd gan Lywodraeth Cymru):** £24,000.00 – nid yw cyfalaf sy'n is na'r trothwy hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol

**Yr incwm wythnosol y gall rhywun ei dderbyn cyn y gofynnir iddo/iddi dalu - 2025/26 (a bennwyd gan Lywodraeth Cymru):**

- Pensiynwr (65 oed a hŷn) = £329.30 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (25-64) = £226.85 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (18-24) = £199.09 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (25-64) sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth = £234.54 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (18-24) sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth = £206.77 yr wythnos
- Oedolyn (25-64) sy'n derbyn Credyd Cynhwysol = £133.89 yr wythnos
- Oedolyn (18-24) sy'n derbyn Credyd Cynhwysol = £106.07 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (25-64) sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (sy'n derbyn lwfansau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd) = £187.02 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (18-24) sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (sy'n derbyn lwfansau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd) = £159.19 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (25-64) sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (sy'n derbyn lwfansau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd) = £275.55 yr wythnos
- Oedolyn Anabl (18-24) sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (sy'n derbyn lwfansau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd) = £247.70 yr wythnos

Gall y ffigurau hyn godi os derbynnir budd-daliadau gwahanol.

Gweler isod ddolen i wefan y cyngor i gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am godi tâl am wasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl:

www.sirgar.llyw.cymru/taluamofal